**Beirniadaethau Y Fedal Gyfansoddi,**
**Eisteddfod yr Urdd Maldwyn 2024**
**Beirniaid: Gareth Glyn a Guto Pryderi Puw.**

Mae cystadleuaeth Y Fedal Gyfansoddi dan 25 oed yr Urdd yn gyfle gwych i'n cyfansoddwyr ifanc o oedran ysgol uwchradd hyd at ganol eu hugeiniau ac o bosibl ar ddechrau eu gyrfa, i ymarfer eu crefft, i gael perfformiad o'u darnau a maes o law i dderbyn adborth ar eu gwaith. Gyda phedwar o gategorïau tra gwahanol i ddewis ohonynt, gwneir y gystadleuaeth hon hyd yn oed yn fwy apelgar a cafodd fy nghyd-feirniad a minnau gryn foddhad yn edrych drwy'r amrywiaeth o ddarnau difyr.

O ganlyniad, daeth deuddeg ymgais i law, sy'n nifer parchus o'i gymharu ag ambell i flwyddyn, ond gocheled chwi gystadleuwyr, gwnewch yn siwr eich bod yn darllen gofynion y gystadleuaeth yn ofalus. Yn anffodus, bu raid diystyru pedair ymgais arall o'r neilltu gan nad oeddent yn ffitio i'r categorïau a restrwyd yn gynharach. Nid yw portffolio o gyfansoddiadau corawl yn creu 'cylch o ganeuon' fel a gafwyd yn ymgais Carnguwch, er y gellir gweld fod y cyfansoddwr/wraig yma'n meddu talent a dawn gyfansoddi amlwg. Yn ogystal, nid yw darn 'cerddorfaol' yn ffitio mewn i'r categori 'cyfansoddiad i ensemble offerynnol', fel a gafwyd yn ymgais Hirnant a Hyddgen. Ac yn olaf, nid oedd ymgais Lleisiau ar ffurf cân boblogaidd hynod o fachog yn disgyn i run o'r categorïau. Mae hyn yn bechod gan fod llawer o'r gerddoriaeth o safon uchel iawn yma. Rhoddir sylwadau unigol am y cyfansoddiadau hyn ar ddiwedd y feirniadaeth hon.

**TRYDYDD DOSBARTH**

Ac felly, ymlaen i'r ymgeiswyr eraill, ac yn gorwedd yn y Trydydd Dosbarth cawn ymdrechion Caradog, Lleminawc ac Otocinclus, i gyd yn meddu ar rai rhinweddau canmoladwy o ran technegau cyfansoddi a'r ymdriniaeth offerynnol, ond yn ogystal fe welwyd ynddynt rai gwendidau oedd angen rhagor o sylw:

**‘Y Fordaith’ gan Caradog**

Cafwyd cyfansoddiad ar gyfer piano, tympanau a llinynnau yn disgrifio mordaith ddychmygol. Wedi’r rhagarweiniad, roedd y gerddoriaeth yn cynnwys alaw gref gydag ymdrech deg i’w rhannu rhwng offerynnau yr ensemble. Mae lle yma i geisio mwy o amrywiaeth yn y deunydd cerddorol, gan fod y gerddoriaeth yn dueddol o fod yn amlwg wrth i’r darn fynd rhagddo. Beth am weithio rhediadau hanner cwaferi y fiola yn y gerddoriaeth i gynyddu’r tensiwn cerddorol i gyfleu symudiadau’r tonnau neu siglo’r llong? Yn ogystal, o bosibl y collwyd cyfle i greu adran fwy bolyffonig tua canol y darn, gan ganolbwyntio ar greu lleisiau annibynnol sydd hefyd yn plethu’n gyfforddus o fewn yr ysgrifennu offerynnol.

Technegol - Codir peth cwestiynau am y nodiant, yn enwol, pam y nodwyd rhan y feiola heb gyweirnod yn y sgôr a pham y nodiant enharmonig yn yr adran gyntaf? Er bod yr C isel yn bosibl ar y tympanau modern mae ansawdd y sain braidd yn ‘wag’ o’i gymharu a nodau eraill y cwmpas isaf, felly mae modd cysidro ei nodi 8fed yn uwch. Nid yw’r deinamegau yn glir o tud.7 i’r diwedd.

**‘Preiddiau Annwfn’ gan Lleminawc**

Ysbrydolwyd ‘Preiddiau Annwfn’ ar gyfer clarinét, feiolin, sielo a phiano, gan gerdd ganoloesol sy’n ein tywys i fyd y tylwyth teg, gan ailgreu y stori mewn cyfres o symudiadau byrion gyda phenawdau i nodi’r stori. Cyfeirir yn y dechrau at y defnydd o’r raddfa octatonig ond mae’r effaith ar y cyfan yn gwbwl donyddol. Er y bwriad yw cynyddu’r tensiwn harmonig, y mae tueddiad i or-ddefnyddio cordiau cywasgedig er mwyn creu hynny, gan droi y gerddoriaeth yn amlwg ar brydiau. Roedd prif adran yr ail symudiad yn effeithiol iawn. Mae lle yma i ddatblygu mwy ar y syniadau, amrywio’r gwerthoedd rhythmig ac amrywio rhan y piano i beidio gor-ddibynnu ar gordiau. Er hynny cafwyd ymgais lew i greu awyrgylch a chyffro.

**‘Minuet in B Minor’ gan Otocinclus.**

Roedd ymgais Otocinclus ar ffurf miniwet mewn arddull glasurol. Roedd y cyfansoddiad wedi ei saernïo’n dda gyda gwybodaeth amlwg o’r ffurf (e.e. y defnydd o’r trio gwrthgyferbyniol), yn idiomatig i’r offerynnau, er mae lle yma i gael amrywiaeth yn rhan y piano. Yn ogystal, gellid fod wedi rhoi yr alaw i’r piano, yn lle fod yr offeryn yn gyfeiliant i’r feiolin drwy gydol yr amser.

**AIL DDOSBARTH**

**‘Yr Afon’ gan Stiiif Hwyr**

Roedd ymdrech Stiiif Hwyr dan y teitl ‘Yr Afon’ ar gyfer piano unawdol yn llwyddo i greu awyrgylch synhwyrus ac effeithiol iawn o’r dechrau. Roedd y defnydd o’r offeryn yn hyderus gyda chordiau cyfoethog mewn arddull argraffiadol (nid anhebyg i Debussy neu Ravel) yn cynnal yr alaw. Yn ddiweddarach, cafwyd adran gyda chordiau cyflymach staccato fwy traddodiadol (gan hepgor y defnydd o alaw) a oedd yn ein hatgoffa fwy o gyfeiliant addas i gân bop na darn clasurol. Yn nes ymlaen, cafwyd elfen lled fyr-fyfyriol, a oedd o bosibl yn awgrymu diffyg cyfeiriad i’r cyfansoddiad. Mae lle yma i ffrwyno fwy ar y defnydd o wahanol arddulliau o fewn y gwaith, gan o bosibl ganolbwyntio ar un arddull yn benodol, a fuasai yn ei dro yn cynyddu’r undod a chysondeb o fewn y gerddoriaeth. Er hynny, roedd y darn yn meddu potensial ac mae yna dalent cyfansoddwr yma’n ddiau.

**DOSBARTH CYNTAF**

Esgynwyd pedwar ymgeisydd i’r Dosbarth Cyntaf, sef Dêfid, ephemeral., Konfalia a Rodion.

**‘Morgrug y Cyhydedd’ gan Dêfid**

Roedd ‘Morgrug y Cyhydedd’ gan Dêfid yn ddarn disgrifiadol ar gyfer y clarinét, sielo a phiano, a ysbrydolwyd gan farddoniaeth wreiddiol Nicholas Laughlin. Drwy’r defnydd o ddyfyniadau achlysurol o’r gerdd ar y sgôr, nid anhebyg i rai darnau i’r piano gan Erik Satie, dilynna’r darn y farddoniaeth yn llythrennol, er y gellid ymdrechu i gyfleu hynny’n fwy ar brydiau. Roedd rhythmau ailadroddus agoriadol y piano mewn amsernod 7/8 yn dynodi ‘gorymdaith ddi-baid’ y morgrug, tra bod y clarinét a’r sielo yn eu tro yn ychwanegu alawon neu sylwebaeth chwareus o fewn y gwead offerynnol. Cafwyd defnydd da o holl gwmpas y piano, ond mae modd creu rhagor o amrywiaeth yn y ddau offeryn arall (yn enwedig y clarinét), gan eu bod yn gyson yn eu cwmpas isel/canol. Er hynny, fe amrywiwyd yr ysgrifennu ensemble drwy gynnwys ond y sielo i chwarae sydd maes o law yn troi’n ddeuawd gydag ychwanegiad y clarinét. Buasai newid cwmpas yr offerynnau yn yr adran hon wedi bod yn effeithiol, gan gysidro’r sylwadau o’r farddoniaeth ‘Wele adar y si!’. Roedd y diweddglo yn smala a gwreiddiol, yn sicr mae yma gyfansoddiad dychmygus a chreadigol.

Technegol - Gan fod y darn wedi ei ysbrydoli gan farddoniaeth, buasai wedi bod yn fuddiol nodi'r gerdd yn ei chyfanrwydd ar ddechrau'r sgôr. Hefyd, er mwyn symleiddio'r nodiant yn rhan y piano, dylid nodi'r nodau hanner cwaferi fel cwafer staccato? Yn ei ffurf bresennol, buasai rhan y piano yn anodd iawn i'w berfformio. Roedd rhai o'r sillafiadau enharmonig yn drwsgwl (e.e. y sielo a'r piano ym mar 102, a'r sielo ym mar 101).

'ephemeral.' [a] ar gyfer ffliwt, obo, offer taro, telyn a phedwarawd llinynnol. Llwyddwyd i greu awyrgylch ddigynnwrf tra effeithiol yn y cyfansoddiad 'ephemeral.' gan ddefnyddio'r ensemble o ffliwt, obo, offer taro, telyn a phedwarawd llinynnol yn gelfydd ac aeddfed, gan roddi digon o amrywiaeth mewn lliwiau offerynnol o fewn y darn. Roedd y cordiau fwy anghyseiniol yn tueddu i seinio ychydig allan o'u lle (e.e. ar ddiwedd tud.3 a thop tud.5), o gysidro ieithwedd gyffredinol fwy draddodiadol oedd i'r darn. Er hynny, ar y cyfan roedd yr harmoni yn gyson gyda'r tueddiad o or-ddibynnu ar alawon wedi eu dwblu ar y trydeddau. Yn ogystal gellid fod wedi amlygu'r cynnydd yn y tempo yn yr adran ganol (t.3) gyda rhagor o ffigyrau hanner cwaferi, er mwyn cynyddu'r tensiwn rhythmig. Er hynny, ceir cyffyrddiadau synhwyrus dros ben yn y gwaith, megis y defnydd o'r gloch yn yr adran olaf o bosibl yn cyfeirio at y byrhoedledd a awgrymir yn y teitl, a oedd hefyd yn ffurfio clo atmosfferig ac addas i'r cyfanwaith.

Technegol - A yw'r atalnod llawn yn y teitl yn fwriadol, ac os ydyw, pam ei gynnwys? Y mae'n arfer dda cynnwys marc deinameg i bob offeryn, yn enwedig ar y dechrau, gweler rhan y clychau.

**'Triawd o Llannerch y goedwig' gan Konfalia**

Cafwyd darn rhythmig ac egnïol iawn ar gyfer ffliwt, fiola a thelyn sy'n llwyddo i arddangos medr dechnegol hyderus a dawn naturiol i ysgrifennu ar gyfer offerynnau'r ensemble. Roedd gyrriant rhythmig y cyfeiliant y delyn yn effeithiol drwy gydol y darn, yn creu sail addas ar gyfer alawon telynegol a gafwyd yn eu tro yn rhan y ffliwt a'r fiola. O bosibl y gellid cael ychydig fwy o amrywiaeth yn yr ysgrifennu ensemble, er enghraifft, nid oes raid defnyddio'r holl offerynnau drwy'r amser, felly beth am roi saib i'r delyn yn yr adran stacc. rhwng tud.9-10?

Yn ogystal mae modd arafu'r tempo i gael perfformiad 'cywirach' o'r gerddoriaeth gan fod rhan y delnyn yn heriol mewn mannau. Yn sicr, cafwyd darn afieithus a llawn egni a oedd yn ein cadw ar flaenau'n sedd o'r bar cyntaf i'r bar olaf.

Technegol - Mae nodiant ambell i harmonic yn y delyn yn ei wneud yn anodd i'w chwarae ar y tempo a roddir (gweler tud.12 ac 19). Yn yr un modd, nid yw'r tremolo yn rhan y delyn yn tt.15-16 yn idiomatig. Hefyd, tuag at ddiwedd y darn gellid fod wedi ychwanegu llithriadau i rediadau cyflym y ffliwt (e.e. y pumledi, chwechledi a'r saithledi) i'w gwneud yn haws i'w chwarae. Roedd llawer o'r ffliwt yn y cwmpas isaf gyda'r potential o gael ei foddi gan yr offerynnau eraill, mae modd ei symud 8fed yn uwch mewn rhai mannau.

**'Pedwarawd Llinynnol' gan Rodion**

Cafwyd cyfansoddiad wedi ei saernïo'n gelfydd gan Rodion, yn amlwg gyda chryn feddwl tu ôl i'r gerddoriaeth. Roedd yr iaith gerddorol yn fodern, gyfoes, ac roedd yr ysgrifennu offerynnol ar y cyfan yn effeithiol. Mae lle i greu rhagor o amrywiaeth yn y darn, o ran y cyfuniadau o offerynnau, y dwyster o ran y rhythmau ac hefyd yr harmoni. Roedd y nodau ailadroddus yn ymddangos yn eu tro yn y gwahanol offerynnau yn effeithiol iawn. Gellid fod wedi datblygu y syniad hwn ymhellach, ac o ganlyniad i ganolbwyntio ar y rhyngweithio rhythmig fuasai'n bosibl rhwng y gwahanol rannau, er mwyn cynyddu'r diddordeb rhythmig yn y darn. Roedd y gell thematig agoriadol yn ailymddangos yn achlysurol ac yn cael ei hamryio a'i datblgu drwy gydol y darn. O bosibl fod angen cynnal y diddordeb yn yr adrannau canol oherwydd gellir dadlau eu bod ychydig yn ddi-gyfeiriad. Er hynny, roedd hwn yn ddarn sy'n haeddu canmoliaeth uchel.

Er bod amrwyiol fân feiau ymhob un o'r cyfansoddiadau, roedd fy nghydfeirniad a minnau o'r farn y gellid fod wedi gwobrwyo unrhyw un o'r pedwar yn y dosbarth cyntaf ac fe'i hanogir ynghyd â'r holl gystadleuwyr eraill i barhau i gyfansoddi. Pleser gennym gyhoeddi mai enillydd y Fedal Gyfansoddi dan 25ain oed Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Maldwyn 2024 yw Konfalia.

## SYLWADAU AR Y DARNAU A DDIYSTYRIWYD:

### Carnguwch

Roedd ymdrech Carnguwch yn cynnwys amrywiol gyfansoddiadau mewn gwahanol arddulliau ar gyfer côr cymysg safonol, i gyd gyda gwahanol gyfuniadau offerynnol cyfeiliol. Or herwydd, gellir dadlau nad yw rhain yn ffurfio 'cylch o ganeuon' fel y cyfryw (yn ôl gofynion y gystadleuaeth), fel y byddem yn medru uniaethu gyda dyweder caneuon Schubert, Schumann, Benjamin Britten neu Dilys Elwyn Edwards. Nid oes cysondeb offerynnol o un gosodiad i'r llall, nid oes chwaith gyswllt rhwng y testun (er eu bod i gyd yn defnyddio barddoniaeth gan feirdd cyfoes Cymreig) ac nid oes teitl wedi ei bennu i'r casgliad cyflawn o ddarnau! Canolbwyntiwyd ar amrywiaeth yn hytrach nac unoliaeth.

Er hynny, mae'r ysgrifennu corawl yn hyderus iawn gan greu gosodiadau gafaelgar, diddorol a chyffrous. Mae'r alawon yn gywrain a'r cerddorfaethu yn hyderus, gyda 'Ble, o ble daeth ei blu' mewn arddull sioe gerdd, 'Golau Gwan' mewn arddull bywiog jas, 'Dal dy dir' fel gosodiad ysgafn adloniannol ac Emyn Gobaith yn emyn fodern. Mae'n werth cyfeirio'n unigol at ddau osodiad sy'n rhagori, sef 'Rho im lewyrch' sy'n ddarn digyfeiliant wyth llais fwy clasurol ei arddull ac yn gosod her i'r rhan fwyaf o gorau, a 'Rhaid Peidio Dawnsio' sy'n osodiad cerdd dant hynod ddychmygus a gwreiddiol i gôr, telyn a cherddorfa.

### 'Thema Baz' gan Hirnant

Ysbrydolwyd ymdrech Hirnant dan y teitl 'Thema Baz' gan y nofel Carry On gan yr awdures Rainbow Rowell, ac o bosibl gyda'r bwriad i gyfleu un o brif gymeriadau'r nofel. Llwyddwyd i greu gwaith cerddorfaol effeithiol a fuasai'n gorwedd yn gyfforddus fel cerddoriaeth gefndir i gyfres deledu neu i ffilm. Roedd llawer o'r alawon yn bwrpasol ac roedd ansawdd dywyll y gerddoriaeth yn amlygu eu hun drwy'r defnydd o'r cyweiriau a'r offeryniaeth gelfydd. Roedd y gerddorfaeth yn gyson idiomatig ac ar brydiau yn ddychmygus. O gysidro potensial yr alawon, cymharol fyr yw'r darn, a chredir fod lle yma i ddatblygu'r syniadau ymhellach.

Yn anffodus bu raid diystyru'r ymgais gan nad yw darn cerddorfaol yn disgyn i'r categori 'cyfansoddiad i ensemble offerynnol'.

Technegol - Dylid nodi'r nodau hir fel minims dotiog a semibrif dotiog yn hytrach na chrosietau dotiog wedi eu clymu.

**'Lluniau'**

Cafwyd cân mewn arddull boblogaidd gydag alaw afaelgar iawn (ac ansawdd leisiol o safon uchel) gan Lluniau. Roedd y geiriau yn ymdrin â phwnc perthnasol ynglŷn a'r cyfryngau cymdeithasol ymysg y genhedlaeth iau heddiw, gyda'r geiriau yn cloriannu hyn i'r dim. O bosibl y gellid fod wedi cael mwy o amrywiaeth yn y gân o ran y strwythur (e.e. middle eight) ac yn yr offeryniaeth (e.e. cael y cordiau synth agoriadol i ailymddangos rywle arall yn ystod y gân). Yn anffodus bu raid diystyru'r ymgais gan nad yw'n disgyn i run o'r categorïau.

**'Hyddgen' gan Tarian Aur**

Ymdeithgan ar gyfer cerddorfa mewn arddul neoglasurol yw 'Hyddgen' gan Tarian Aur, o bosibl yn adleisio y math o gerddoraeth a gyfansoddwyd gan Hindemith. Mae'r gwead cerddorol ar y cyfan yn uniongyrchol a chynnil, gydag ymdrech i adeiladu'r gwead drwy ychwanegu rhannau at yr offerynniaeth. Mae'r darn yn dechrau gyda'r offer taro yn unig (sy'n cael lle amlwg iawn drwy gydol y darn) ac yn creu rhyw ymdeithgan fygythiol, ar y pres isel i ddechrau. Yn nes ymlaen mae'r defnydd o'r gwahanol deuluoedd o offerynnau, a'u hunawdau, yn effeithiol iawn, gan awgrymu (ymhlith pethau eraill) cefndir o fygwth yn erbyn ymdeimlad o heddwch a gorffwys. Fodd bynnag mae llawer o'r gerddoriaeth yn homoffonig, sef pob rhan yn symud gyda'i gilydd a gellid amrywio hyn o fewn y gerddoriaeth i gynnal y diddordeb. Yn ogystal, mae'r darn yn gorffen braidd yn swta, gyda'r argraff bod gan y cyfansoddwr lawer yn fwy i'w ddweud. Mae yna gymaint o addewid yn y cyfansoddiad hwn. Yn anffodus bu raid diystyru'r ymgais gan nad yw darn cerddorfaol yn disgyn i'r categori 'cyfansoddiad i ensemble offerynnol'.

Technegol - Rhaid nodi bod y pedalu ar gyfer y tympanau yn heriol tu hwnt ym mar 84, ac yn galw am offerynnwr tra medrus. Er bod llithriadau bwa’r llinynnau wedi cael ei cynnwys, nid felly llithriadau anadl yr offerynnau chwyth, ac fe ddylid cywiro hynny.